



HYSBYSIAD PREIFATRUYDD DATA CYNGOR SIR FYNWY

Cyfarwyddiaeth:	Menter a Datblygu Cymunedau
Ardal Wasanaeth:	Theatr y Bwrdeistref
Manylion Cyswllt:	dataprotection@monmouthshire.gov.uk
Teitl yr Hysbysiad Preifatrwydd	Hysbysiad preifatrwydd Theatr y Bwrdeistref wedi'i ddiweddarau

Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Rydym yn casglu'r categorïau canlynol o wybodaeth ohonoch yn uniongyrchol pan fyddwch yn prynu tocynnau, neu'n anuniongyrchol trwy ein gwefan gwerthu tocynnau pan fydd tocynnau'n cael eu prynu. Rydym hefyd yn casglu'r data hyn ohonoch chi gyda'ch caniatâd pan fyddwch yn ymuno â'n rhestr Ebost.

- Manylion cyswllt ffôn
- Cyfeiriad ebost
- Cyfeiriad post

Ffynhonnell eich data personol

- a. Cafodd y wybodaeth hon ei rhannu gyda Theatr y Bwrdeistref ar ran Cyngor Sir Fynwy gan sefydliad arall fel y manylir isod – e.e. Ticketsolve, a'r meddalwedd talu cysylltiedig
- b. Cafodd y wybodaeth ei rhannu ganoch yn uniongyrchol wrth brynu tocynnau neu gan gofrestru am ein E-rhestr.
- c. Os hoffech chi wybodaeth bellach ynglŷn â ffynhonnell y wybodaeth hon, cysylltwch â'r theatr, os gwelwch yn dda. Efallai bydd angen i chi geisio am y wybodaeth hon trwy Gais Cyrch Gwrthrych.

Diben a sail gyfreithiol am ddefnyddio'ch gwybodaeth

Ein rheswm/rhesymau am ddefnyddio'ch gwybodaeth:

- Rydych chi wedi rhoi caniatâd i ni gael y wybodaeth hon er mwyn i chi allu derbyn gwybodaeth farchnata, neu er mwyn danfon tocynnau sydd wedi'u prynu i chi, neu er mwyn gallu cysylltu â chi ar y ffôn ynglŷn â gwybodaeth newydd.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r sail gyfreithiol, ymwelwch ag www.ico.org.uk

Pwy fydd â mynediad i'ch gwybodaeth?

Y Rheolwr Data am eich gwybodaeth yw Cyngor Sir Fynwy.
Ebost: dataprotection@monmouthshire.gov.uk

Efallai y bydd Rheolwyr Data eraill yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn ôl yr amgylchiadau penodol. Cysylltwch â'r Ardal Gwasanaeth am fwy o wybodaeth.

Dyma'r adrannau yr ydym yn rhannu eich data gyda'n fewnol:

Theatr y Bwrdeistref Y Fenni
Archwiliadau Mewnol

Dyma'r asiantaethau/sefydliadau yr ydym yn rhannu'ch data â'n allanol:



HYSBYSIAD PREIFATRWYDD DATA CYNGOR SIR FYNWY

Ein meddalwedd tocynnu: Ticketsolve, Suite 12 12, 600 Commercial Road, London E14 7LA

Meddalwedd talu sy'n gysylltiedig â'n meddalwedd tocynnu: Realex Payments, 11th Floor Blue Fin Building, 110 Southwark Street, London SE1 0SU.

Mae yna amgylchiadau'n lle mae'n rhaid i ni rannu eich gwybodaeth o dan y gyfraith gydag:

Asiantaethau Gorfodi Cyfraith y Llywodraeth e.e. yr Heddlu er mwyn datgelu ac atal trosedd

Ceisiadau am wybodaeth

Gall pob gwybodaeth gofnodedig sydd wedi'i chadw gan Gyngor Sir Fynwy fod yn ddarostyngedig i geisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol gan gynnwys unrhyw gyfraith Diogelu Data arall.

Os yw'r wybodaeth yr ydych yn ei chyflwyno'n ddarostyngedig i gais felly, bydd Cyngor Sir Fynwy'n ymgynghori â chi wrth ei rhyddhau lle bo'n bosib. Os ydych yn gwrthwynebu rhyddhau'ch gwybodaeth byddwn yn dal eich gwybodaeth os yw'r ddeddfwriaeth berthnasol yn ei alluogi.

Marchnata

Rydych wedi caniatáu bod eich manylion cyswllt yn cael eu defnyddio at ddibenion marchnata. Byddwch wedi derbyn manylion y marchnata bod Theatr y Bwrdeistref yn darparu ar ran Cyngor Sir Fynwy, yn ogystal ag unrhyw opsiwn megis y modd yr hoffech chi gael eich cysylltu e.e. ebost neu ffôn. Gallwch chi dynnu eich caniatâd am farchnata yn ôl ar unrhyw adeg gan gysylltu â'r Swyddfa Docynnau yn Theatr y Bwrdeistref.

Am ba hyd y byddwn yn cadw'ch gwybodaeth?

Mae'r hyd y mae Cyngor Sir Fynwy yn cadw gwybodaeth yn cael ei benderfynu trwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Byddwn yn cadw'ch gwybodaeth gyswllt hyd nes y byddwch yn gofyn i ni ei gwaredu.

Eich Hawliau

Eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yw:

- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gyrchu
- Yr hawl i gywiro
- Hawliau sy'n ymwneud â phenderfyniadau awtomataidd a phroffilio.
- Yr hawl i iawndal os nad yw Cyngor Sir Fynwy'n cydymffurfio â gofynion penodol o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn ymwneud â'ch gwybodaeth.

Am fwy o wybodaeth, cyfeiriwch at www.ico.org.uk

Gweithdrefn Cwyno

Os ydych yn gwrthwynebu'r modd y mae Cyngor Sir Fynwy'n cadw'ch data, mae gennych chi'r hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Ardal Wasanaeth sydd wedi'i manylu ar ben y ddogfen hon gan amlinellu'ch problemau, os gwelwch yn dda. Dilynwch y ddolen hon am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r [broses gwyno](#), os gwelwch yn dda.

Os ydych yn parhau i fod yn anhapus, mae hefyd gennych chi'r hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth www.ico.org.uk.



Rhif yr Hysbysiad Preifatrwydd	ENTBT001 23.05.2018
Dyddiad Creu:	11.01.2019
Dyddiad Cyhoeddi:	2
Rhif Fersiwn:	

Hysbysiad Cryno Preifatrwydd Data

Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Mae angen i Theatr y Bwrdeistref (CSF) prosesu'ch data personol er mwyn galluogi i ni anfon tocynnau eich bod wedi prynu, neu i gysylltu â chi trwy ebost neu ffôn gyda gwybodaeth farchnata, fel eich bod wedi gofyn i ni wneud. Heb y wybodaeth hon, efallai ni fydd modd i'r theatr gyflawni ei rwymedigaeth i roi gwybod i chi fel y gofynnwyd.

Bydd eich manylion yn cael eu rhannu'n gyfreithlon â staff penodol sy'n gyfrifol am weinyddu/ cydlynu dyletswyddau marchnata Theatr y Bwrdeistref mewn modd saff a diogel. O bryd i'w gilydd efallai bydd angen i ni rannu'ch manylion personol ag Archwilwyr Mewnol ac Allanol. Ni fydd eich manylion yn cael eu rhannu ymhellach, heblaw mewn perthynas â diogelu neu rwymedigaethau cyfreithiol eraill.

Bydd eich cofnodion yn cael eu storio a'u cadw yn unol â'n polisi cadw, heblaw bod angen i ni eu cadw o dan sail gyfreithlon arall.

Mae gennych nifer o hawliau sy'n ymwneud â'r wybodaeth gan gynnwys yr hawl i gyrchu gwybodaeth yr ydym yn ei dal amdanoch a'r hawl i wyno os nad ydych yn hapus â'r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

Os oes angen i chi gwyno am y modd y mae eich data wedi cael eu prosesu, cysylltwch â dataprotection@monmouthshire.gov.uk, os gwelwch yn dda, neu os nad ydych yn hollol fodlon gallwch



HYSBYSIAD PREIFATRWYDD DATA CYNGOR SIR FYNWY

gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Wybodaeth ar-lein yma www.ico.org.uk/concern neu drwy eu llinell gymorth: 0303 123 1113